

CYNLLUN RHEOLI DALGYLCH  
AFON MENAI; 1995  
CYNLLUN GWEITHREDU



AAC

*Awdurdod Afonydd Cenedlaethol  
Rhanbarth Cymru*

#### Hawlfraint Amodol Yr AAC

Bwriedir i'r adroddiad yma gael ei ddefnyddio'n eang a gellir ei ddyfynnu, ei gopio neu ei gynhyrchu mewn unrhyw fodd ar yr amod nad yw darnau'n cael eu dyfynnu allan o'u cyd-destun a bod yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn cael ei gydnabod.

#### Cydnabyddiaeth

Mae'r mapiau wedi eu seilio ar fap Ordnance Survey 1992 graddfa 1:50,000 gyda chaniatad Rheolwr Swyddfa Gyhoeddiadau ei Mawrhydi (HMSO) © Hawlfraint.

WE	3	95	2k	E	AMOM
----	---	----	----	---	------



## YSTADEGAU'R DALGYLCH

### CYFFREDINOL

Poblogaeth.....	49,400 (Cyfrifiad 1991)
Mewnllif gwyliau (Gorffennaf/Awst).....	350,000* (ychwanegol)
	150,000* (ymwelwyr dydd)

\* amcangyfrif diweddaraf

### Lefelau llanw Afon Menai

	Biwmares	Porthaethwy	Y Felinheli	Caernarfon	Caer Belan
Cymedr Distyll llanw mawr	-3.2m	-3.1m	-2.25m	-2.2m	-2.0m
Cymedr Penllanw llanw mawr	3.7m	3.3m	2.65m	2.5m	2.1m

Prif drefi a phoblogaethau:

Bangor (dinas).....	11,025
Caernarfon.....	9,681

### ANSAWDD DŴR

Dosbarthiad Arolwg y Cyngor Dŵr Cenedlaethol Rhagfyr 1990.....	A (da)
Nifer y gweithfeydd trin carthion sy'n arllwys i'r Fenai.....	11
Nifer y pibelli carthion di-driniaeth sy'n arllwys i'r Fenai.....	28

### AMDDIFFYN RHAG LLIFDGYDD

Arwynebedd sydd mewn perygl o lifogydd llanw..... 710 Ha

### PYSGODFEYDD

Mae'r Fenai'n bysgodfa gregyn ddynodedig dan Gyfarwydddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn y GE (79/923/EEC)  
Mae'r Fenai'n cynnal eogiaid a brithyllod môr mudol



## GWELEDIGAETH YR AAC AR GYFER DALGYLCH AFON MENAI

Mae dalgyllch Afon Menai yn cynnwys atyniadau amlwg i'r rhai sydd â diddordeb yn harddwch ei olygfeydd neu mewn cymryd rhan yn yr amrywiaeth helaeth o chwaraeon dŵr a gynhelir yn y Dalgyllch.

Mae pwysigrwydd ecolegol arwyddocaol i'r dalgyllch hefyd, gan y bu'n ganolfan ymchwil i ecoleg y môr ers dros gan mlynedd, dan nawdd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Byddai'r pwysigrwydd hwn yn fwy fyth pe dynodid y Fenai yn Warchodfa Natur Môr, dim ond yr ail yng Nghymru, ac mae'r AAC yn gefnogol iawn i'r cynnig hwnnw.

Y brif her wrth geisio rheoli a gwella Afon Menai fydd sicrhau gwelliannau yn ansawdd y dŵr trwy leihau



*Llun y clawr: Afon Menai*

effaith yr arllwysiadau carthion. Ar yr un pryd, ceisir sicrhau gostyngiad yn y gollyngiadau a geir o gychod - a hynny drwy annog awdurdodau'r harbwr a'r marina i osod cyfleusterau pwmpio- allan a, lle bo angen, trwy gyflwyno is-ddeddfau. Er mwyn gwarchod y stociau pysgod mudol, fe gyflwynwyd is-ddeddfau i wahardd rhwydo tagell yn ystod adegau penodol o'r flwyddyn. Eir ati'n ddygn i weithredu ymrwymiad yr AAC i warchod pobl ac eiddo rhag llifogydd, fel a ddangoswyd gan ein cyfranogiad yn y cynllun i ailsefydlu'r amddiffynfeydd môr yn Ninas Dinlle.

Fodd bynnag, a bod yn realistig, mae'n bwysig cydnabod fod yna nifer o effeithiau andwyol sydd y tu allan i faes dylanwad uniongyrchol yr AAC. Mae'r rhain yn cynnwys, yn arbennig, gludiant gwaddodion i mewn i'r Fenai a blodau algaidd.

Serch hynny, bwriada'r AAC weithio gyda phob asiantaeth a chorff cynrychioliadol arall yn y dalgyllch i hyrwyddo a sefydlu ymagwedd gyfannol at reolaeth. Yn enwedig, mae'r AAC yn rhagweld y bydd y cynllun hwn yn dylanwadu ar brosesau cynllunio'r awdurdodau lleol.

Os am wireddu gweledigaeth yr AAC, rhaid wrth ymagwedd reolaethol gytbwys tuag at bob gweithgaredd fel y gellir, hyd y bo'n ymarferol, sicrhau a chynnal nodweddion dalgyllch naturiol dilychwin, mewn cydweithrediad ymarferol â holl ddefnyddwyr y dalgyllch.

Tra bod y weledigaeth yn mynegi'r uchelgeisiau ar gyfer y dalgyllch yn y tymor hir, canolbwyntio ar y pum mlynedd nesaf a wna'r Cynllun Gweithredu hwn.

D. R. THOMAS  
RHEOLWR ARDAL Y GOGLEDD -  
AAC RHANBARTH CYMRU

## CYNNWYS

GWELEDIGAETH AR GYFER Y DALGYLCH	1
1.0 CYFLWYNIAD	1
2.0 ADOLYGIAD O'R BROSES YMGYNGHORI	2
3.0 GOLWG GYFFREDINOL AR Y DALGYLCH	3
4.0 Y BERTHYNAS RHWNG DEFNYDD TIR A'R AMGYCHEDD DYFROL	5
5.0 GWEITHREDU	6
6.0 GWEITHREDU - MEINI PRAWF LLWYDDIANT	10
7.0 ADOLYGU A MONITRO YN Y DYFODOL	13

### 1.0 CYFLWYNIAD

#### CYSYNIAD CYNLLUNIAU RHEOLI DALGYLCH

Mae galwadau mawr a physur-gynyddol gan ddefnyddwyr dŵr ar afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol Cymru a Lloegr. Mae sawl defnydd gwahanol yn cyd-fynd, neu'n cystadlu am ddŵr, ac mae'n anochel y bydd gwrthdaro rhyngddynt. Yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yw prif reolwr yr amgylchedd dyfrol yng Nghymru a Lloegr a'i gyfrifoldeb yw datrys sefyllfaoedd o wrthdaro rhwng defnyddwyr dŵr. Mae ein Datganiad Cenhadaeth yn mynegi'r egwyddorion a ganlyn:

Byddwn yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd dyfrol trwy reoli adnoddau dŵr yn effeithiol a thrwy gwtogi'n sylweddol ar lygredd. Ein nod fydd darparu amddiffyniad effeithiol i bobl ac eiddo rhag llifogydd o'r afon a'r môr. Wrth gyflawni'n dyletswyddau fe weithredwn yn agored gan gydbwyso buddiannau pawb sy'n defnyddio ac yn manteisio ar afonydd, dyfroedd daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Byddwn yn ymarferol, yn effeithiol ac yn ofalgar yn ein hymwneud a'n gweithwyr.

Rydym wedi dewis defnyddio Cynlluniau Rheoli Dalgylch (CRhD) i droi'r egwyddorion hyn yn weithredu. Mae'r cynlluniau'n disgrifio'n gweledigaeth ar gyfer pob dalgylch, yn nodi problemau a materion ac yn cynnig ffyrdd o weithredu i'w datrys. Mae'r cynlluniau hefyd yn darparu'r modd i hybu dwy brif agwedd ar reolaeth yr amgylchedd;

- cynllunio defnydd tir
- targedau ansawdd dŵr.

#### Y BERTHYNAS RHWNG CYNLLUNIO DEFNYDD TIR A CHYNLLUNIAU RHEOLI DALGYLCH

Nod cyffredinol cynlluniau rheoli dalgylch yw gwarchod a chyfoethogi amgylchedd yr afon gyfan trwy reoli tir ac adnoddau'n effeithiol. Ond er bod yr AAC mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar rai o'r ffactorau sy'n effeithio ar yr amgylchedd dyfrol, gan gynnwys yr ardal arfordirol, ychydig iawn o reolaeth sydd ganddo dros y peirianweithiau sy'n penderfynu newidiadau defnydd tir ledled y dalgylch. Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio lleol yw hyn i raddau helaeth, trwy weithrediad y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

Mae'r polisïau mewn cynlluniau datblygu statudol yn



*Pioden y môr.*

bwysig yn hyn o beth gan eu bod yn gosod y fframwaith ar gyfer newidiadau defnydd tir, ac yn bwynt cyfeirio allweddol wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygu. Mae'r AAC yn annog y dylid cynnwys polisiâu sy'n adlewyrchu'i ddiddordebau a'i gyfrifoldebau.

Fel arweiniad i awdurdodau lleol, paratodd yr AAC set o ddatganiadau yn ymwneud yn fras â phenawdau ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, amddiffyn rhag llifogydd, pysgodfeydd, cadwraeth, adloniant a mordwyo mewn dyfroedd rheoledig, mwyngloddio a gwaredu gwastraff. Ceir crynodeb o'r datganiadau hyn yn Nodiadau Canllaw yr AAC i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y Dulliau o Warchod yr Amgylchedd Dyfrol trwy Gynlluniau Datblygu.

Mae'r Cynllun Gweithredu CRhD hwn yn amlinellu materion ac anghenion gweithredu penodol i Afon Menai a gytunwyd o fewn fframwaith y Nodiadau Canllaw hyn. Amlinella Adran 4 sut y dylai buddiannau'r amgylchedd dyfrol ddylanwadu ar leoliad a natur datblygiad a newidiadau defnydd tir o fewn y dalgylch.

## TARGEDAU ANSAWDD DŴR

Cyflwynwyd cynllun Targedau Ansawdd Dŵr (TADau) dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. System newydd yw hon ar gyfer cynllunio ansawdd dŵr, a fydd yn gosod targedau ansawdd ar seiliau statudol. Mae'r cynllun wedi'i seilio ar y defnyddiau y gellir eu gwneud ar ddyfroedd, gan gydnabod y bydd costau ynghlwm wrth gyrraedd y targedau ansawdd sy'n angenrheidiol i gynnal y defnyddiau hyn.

Hyd yn hyn, ymdrin â dyfroedd croyw a wna'r TADau ac felly nid ydynt yn berthnasol i'r Fenai, er mai'r bwriad yn y pen draw yw ymestyn y cynllun i gynnwys pob d r rheoledig. Diffmiwyd y darn dŵr unigryw hwn, at ddibenion hen ddsbarthiad y Cyngor Dŵr Cenedlaethol (CDC), fel moryd. Felly mynegir y targedau ansawdd dŵr ar gyfer y Fenai yn nhermau safonau'r CDC ar gyfer dyfroedd aberol, wedi'u hategu gan y safonau sydd a wnelont â gofynion gwahanol Gyfarwyddbau'r GE ar faterion megis Dyfroedd Ymdrochi, Dyfroedd Pysgod Cregyn a Sylweddau Peryglus.

Rhagwelir y caiff cynllun dosbarthu aberoedd y CDC ei ddisodli maes o law gan y cynllun TADau pan gaiff ei ymestyn i gynnwys aberoedd a dyfroedd rheoledig eraill. Caiff yr amcanion ar gyfer Afon Menai eu haddasu yn ôl yr angen bryd hynny.



*Carthlong wrthi yn Harbur Caernarfon.*

## 2.0 ADOLYGIAD O'R BROSES YMGYNGHORI

Dosbarthwyd adroddiad ymgynghorol Cynllun Rheoli Dalgylch Afon Menai i 105 o sefydliadau gan gynnwys cyrff statudol ac anstatudol i geisio'u sylwadau ar gynigion yr AAC. Fe'i hanfonwyd allan bythefnos cyn lansio'r Cynllun i'r cyhoedd yn ffurfiol ym Mhlas Menai, Caernarfon, ar 21 Mehefin 1993. Yn ogystal â'r sylwadau a gafwyd yn y cyfarfod hwnnw, gwahoddwyd pawb yr ymgynghorwyd â nhw i gyflwyno'u sylwadau manwl erbyn 31 Awst 1993.

Cafwyd 27 ymateb, yn cynnig cefnogaeth oedd yn galonogol iawn i'r AAC. Roedd nifer fach o'r farn nad oedd cynigion yr AAC yn ddigon llym. Cwestiynai eraill beth o'r wybodaeth ffeithiol gan gynnig

cywiriadau/gwelliannau. Anfonwyd at bawb a ymatebodd i gydnabod eu cyfraniadau gwerthfawr, a ystyriwyd wrth lunio'r Cynllun Gweithredu hwn.

Rhestrodd yr adroddiad ymgynghorol 13 o faterion o fewn y dalgylch, ac yn yr ymgynghori cyhoeddus enwyd 4 mater posib arall. Barnodd yr AAC fod 3 o'r rhain yn faterion gwahanol newydd, ac fe'u cynhwysir yn awr yn yr adran Weithredu (Materion 14, 15, 16, Adran 5.0). Roedd y mater arall eisoes wedi'i drafod yn y Cynllun. Dyma'r tri mater newydd:-

- (i) Llygredd olew mewn dociau a marinas.
- (ii) Angen gwell mynediad ar hyd glannau



Ynys Môn.

(iii) Effaith rhwydo tagell yn y Fenai.

Mae'r broses ymgynghori'n rhan integrol bwysig iawn o waith yr AAC yn datblygu Cynllun Rheoli Dalgylch, ac yn enwedig ym mharatod yr ail gam neu'r Cynllun

### 3.0 GOLWG GYFEREDINOL

#### DISGRIFIAD O'R DALGYLCH

Culfor godidog yw'r Fenai, sy'n enwog am ei harddwch golygfaol, ei bwysigrwydd ecolegol a'i gyfleoedd helaeth ar gyfer gweithgareddau adloniannol. Mae'n gwahanu Ynys Môn oddi wrth dir mawr Gwynedd. Ceir dwy bont enwog o'r 19eg ganrif dros y Fenai, sef Pont Menai (Pont y Borth), pont grog i gerbydau a gwblhawyd gan Thomas Telford ym 1827, a Phont Britannia, sef pont reilffordd Robert Stephenson (1849). Difrodwyd hon yn helaeth gan dân yn y 1970au, ac fe'i hailadeiladwyd i gludo cefnffordd Caer gybi- Llundain yr A5 yn ogystal â'r rheilffordd.

I ddibenion y Cynllun Rheoli hwn diffinnir y ffin fel llinell o Ynys Seiriol draw at Ben y Gogarth yn y gogledd-ddwyrain ac o Ynys Llanddwyn at Ddinas Dinlle yn y de-orllewin. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys y cyfan o'r arwynebedd islaw'r penllanw yn ogystal â'r llain arfordirol sy'n dylanwadu ar y Fenai neu sydd dan ei dylanwad. Mae'r sianel ddŵr yn gul, yn amrywio o ran lled rhwng 180 metr (200 llath) a 3.2 cilometr (2 filltir), ac mae'n ymestyn am ryw 24 cilometr (15 milltir) o Ynys Seiriol i Abermenai. Mae rhan ddwyreiniol a rhan orllewinol i'r Fenai, y ddwy'r rhedeg o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, wedi'u cysylltu gan ddarn byr o'r gogledd i'r de (Llanfairpwll i'r Felinheli) yn y canol.

Mae patrymau'r llanw'n gymhleth gan y bydd llifeiriaint yn dod i mewn i'r Fenai o'r naill ben a'r llall, dan ddylanwad cerrynt Môn Iwerddon. Bydd amrediad y llanw'n cynyddu gyda'r cloc o amgylch Môn ac i'r dwyrain drwy'r Fenai, gyda gwahaniaeth mwyaf o 3 metr. Mae'r gwahaniaethau yn y cylch a'r amrediad llanw yn achosi llif gwaelodol o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin.

Mae'r dalgylch, gyda'i boblogaeth o oddeutu 50,000, 42% ohonynt yn byw yn y ddwy brif ganolfan, Bangor

Gweithredu. Mae'r ymgynghori ar y Cynllun arbennig hwn wedi dangos fod llawer o bobl yn rhannu gweledigaeth yr AAC ar gyfer Afon Menai ac yn cefnogi'r modd y bwriedir gweithredu i gyflawni'r targedau a osodwyd gan yr Awdurdod.



*Afon Menai a Gaernarfon.*

a Chaernarfon, yn dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth, gwasanaethau cyhoeddus a thwristiaeth am gyflogaeth. Mae'n gorwedd o fewn ffiniau Sir Gwynedd ac yn ymestyn dros rannau o ardaloedd Cynghorau Bwrdeistref Aberconwy, Arfon ac Ynys Môn. Mae darn bach iawn o'r dalgylch y tu mewn i ffin ogleddol Parc Cenedlaethol Eryri.

Nid yw'r Fenai'n forffordd fasnachol erbyn hyn, er bod cryn ddefnydd arni gan gychod bychain. Mae'r llain arfordirol yn cario cysylltiadau cefnffordd (A55) a rheilffordd (Caer gybi-Llundain) pwysig. Y rhain, wrth groesi'r Fenai dros Bont Britannia, sy'n darparu'r prif ffyrdd cysylltu ar gyfer masnach rhwng Prydain ac Iwerddon.

Er bod ansawdd y dŵr yn y Fenai'n dda ar y cyfan (Dosbarth A yn Arolwg y Cyngor Dŵr Cenedlaethol), fe geir blodau algaidd (gordysiannau) bron bob blwyddyn. Maent yn tarddu o'r tu allan i'r Fenai, ac yn aml caiff y tyrrau algaidd pydrol eu camgymryd am falurion carthion. Cyfyd problemau gydag ansawdd esthetig y dŵr hefyd yn sgîl gollyngiadau carthion crai, ond lleol iawn yw'r rhain ac fe gaiff y prif arllwysiadau eu hymgorffori mewn cynllun trin a gwaredu carthion gan Ddŵr Cymru maes o law.



*Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Dŵr Plas Menai.*

Mae'r Fenai'n cynnal amrywiaeth eang o chwaraeon dŵr, sef yn bennaf hwylio, deifio, sgio dŵr a chan io. Dyma leoliad Canolfan Chwaraeon Dŵr Cyngor Chwaraeon Cymru, Plas Menai, lle rhoddir rhyw 16,000 awr-person o hyfforddiant bob blwyddyn. Mae'r glannau creigiog yn cyfyngu ymdrochi i ychydig o leoliadau, a dim ond Morfa Dinlle sydd wedi'i dynodi dan Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi'r GE.

Mae amddiffyniad effeithiol i bobl ac eiddo rhag llifogydd o afonydd ac o'r môr yn darged pwysig o fewn ardal y Fenai gyda 710 Ha o dir mewn perygl. Mae'r AAC yn gyfrifol am gynnal nifer o amddiffynfeydd arfordirol, yn enwedig Forgloddiau'r Foryd a Dwyran a Rhuddgaer. Wedi difrod difrifol gan stormydd, ailadeiladwyd amddiffynfeydd môr Dinas Dinlle i roi lefel digonol o warchodaeth i'r ardal. Cynllun ar y cyd yw hwn rhwng Cyngor Bwrdeistref Arfon (sef yr awdurdod sy'n gyfrifol am yr amddiffynfeydd) a'r AAC.

Caiff adnoddau naturiol yr ardal eu hecsbloetio'n fasnachol ac er mwyn adloniant. Yn enwedig, mae yma bysgodfa fasnachol ar gyfer pysgod môr, pysgod cregyn

a chramenogion, yn ogystal â physgodfeydd rhwydi trwyddedig gan yr AAC ar gyfer eogiaid a brithyllod môr sy'n mudo trwy'r Fenai. Mae'n fan poblogaidd i enweirwyr môr a threfnir hela adar gwyllt mewn dau leoliad ar yr aber.

Mae'r prif ddiddordebau archaeolegol yn y Fenai'n cynnwys nifer o goredau (trapiau pysgod o gerrig) a luniwyd yn y bymthegfed ganrif neu cyn hynny. Y Gorad Goch a'r Gorad Ddu yn y Swellies yw'r ddwy sydd wedi'u cadw orau. Mae sawl llongdrylliad, yn enwedig yn y Swellies, gan gynnwys HMS Conway.

Mae Afon Menai'n adnodd naturiol o bwysigrwydd ecolegol mor eithriadol nes bod y Cyngor Cefn Gwlad wedi enwebu'r safle i'w ddynodi'n ddim ond yr ail Warchodfa Natur Môr yng Nghymru. Mae 10 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) yn Ardal y Cynllun ac mae Coedwig Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol dynodedig. At hynny, ceir nifer o Warchodfeydd Natur Lleol ac mae Arfordir Min ynddo'i hun wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

#### DEFNYDDIAU'R DALGYLCH

Mae'r amrediad o ddefnyddiau a gweithgareddau yn helaeth o fewn dalgylch y Fenai ac mae pob defnydd cyfreithlon ar y dalgylch a allai effeithio ar yr amgylchedd dyfrol neu ryngweithio ag ef wedi eu disgrifio o dan 15 categori Defnydd yng ngham I y Cynllun Rheoli Dalgylch, neu'r Adroddiad Ymgynghorol.

Dyma nhw:-

Darblygu - Tai, Diwydiant a Masnach.

Amwynder Sylfaenol.

Cadwraeth/Ecoleg Môr



*Y Marina yn y Felinbeli.*



Ardaloedd Cadwraeth Arbennig  
 Pysgodfeydd Môr  
 Genweirio  
 Pysgota Eogiaid a Siwin  
 Pysgota Pysgod Cregyn yn Fasnachol  
 Amddiffyn rhag Llifogydd  
 Chwaraeon Trochi  
 Cychod  
 Tynnu dŵr  
 Gwaredu elifiant  
 Ymchwil Gwyddonol  
 Mordwyo.

Mae'n anochel y bydd rhywfaint o gyd-ddigwydd ac weithiau wrthdaro rhwng gwahanol Ddefnyddiau, er na welwyd gwrthdaro heblaw rhwng sefydlu'r Warchodfa Natur Môr a'r effaith y gallai unrhyw fesurau rheoli angenrheidiol ei chael ar gychod ac ar yr arfer o gloddio am abwyd ar gyfer genweirio. Gallai gweithredu is-ddeddfau Awdurdod yr Harbwr i gyfyngu ar

ollyngiadau o gychod hefyd leihau'r rhyddid a fwynheir ar hyn o bryd gan y defnyddwyr hyn.

Bydd gan bob Defnydd ofynion o ran ansawdd a maint dŵr yn ogystal ag o ran nodweddion ffisegol. Mae'r ffactorau hyn eisoes ar gael ar y safonau priodol ar gyfer y rhan fwyaf o'r Defnyddiau. Lle bo un neu ragor o'r gofynion hyn yn ddiffygiol o safbwynt y safonau priodol dehonglir hyn fel mater y mae angen gweithredu i'w ddatrys. Amlinellir y rhain yn yr adran Gweithredu (Adran 5.0).

Does dim rheswm, os ceir cydweithrediad pawb a pharch a chyd-ddealltwriaeth rhwng y gwahanol ddefnyddwyr, pam na all pob Defnydd ar ddalgylch Afon Menai barhau'n gytûn heb niweidio'i gilydd na'r amgylchedd dyfrol. Yn sicr bydd yr AAC yn ceisio cynnal yr ansawdd dŵr, y maint dŵr a'r nodweddion ffisegol sydd ar gael ar hyn o bryd i bob Defnydd cyfreithlon. Lle bo'n briodol, ac o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol, bydd yn ceisio gwella'r sefyllfa sy'n bodoli.

#### 4.0 Y BERTHYNAS RHWNG DEFNYDD TIR A'R AMGYLCHEDD DYFROL

Mae'r polisiau yng nghynlluniau datblygu statudol yr awdurdodau lleol yn bwysig iawn gan mai y nhw sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer newid defnydd tir, ac sy'n rhoi'r prif bwynt cyfeirio pan benderfynir ar geisiadau datblygu (Deddf Cynllunio a Digollediad 1991). Mae'r AAC felly yn croesawu polisiau sy'n adlewyrchu'i bryderon a'i gyfrifoldebau mewn cynlluniau datblygu, gan gynnwys y gofyniad statudol i warchod a chyfoethogi'r amgylchedd dyfrol a thiroedd cysylltiedig. Er mwyn hwyluso hyn mae'r Awdurdod wedi darparu 'Nodiadau Canllaw i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar y Dulliau o Warchod yr Amgylchedd Dyfrol trwy Gynlluniau Datblygu' i bob awdurdod cynllunio lleol.

Dalgylch amrywiol o ansawdd amgylcheddol cyffredinol dda yw dalgylch y Fenai. Serch hynny, mae effeithiau gwahanol ddefnyddiau tir ar yr amgylchedd dyfrol yn amlwg. O ganlyniad i'r datblygiad trigianol helaeth sydd wedi digwydd o gwmpas y Fenai heb ddim datblygiad cyfleusterau gwaredu carthion digonol i gyd-fynd â'r datblygiad, cafodd

carthion crai eu harllwys i'r Fenai, gan achosi llygredd esthetig. Bydd yr AAC bob amser yn gwrthwynebu datblygiadau mewn ardaloedd lle mae cyfleusterau gwaredu carthion annigonol yn achosi is-raddio'r amgylchedd dyfrol, a lle nad oes dim ymrwymiad i gynllun gwella digonol.

Bydd datblygiad ar diroedd isel yn peri perygl llifogydd i'r datblygiad ei hun ac i eiddo sydd yno eisoes. Bydd hynny'n wir hefyd am ddatblygiad ar dir uwch lle gall llifogydd afonol beryglu eiddo lle cwtogwyd mewn unrhyw fodd ar arwynebedd y gorlifdir neu ei gyfradd draenio. Mae'n ddyletswydd ar yr AAC i hysbysu'r awdurdodau cynllunio lleol lle bo unrhyw ddatblygiad arfaethedig mewn perygl o ddiodeff llifogydd, yn unol â chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 68/92.

Ardal wledig yn bennaf yw'r dalgylch. Os na chânt eu rheoli'n iawn, gall amaethyddiaeth a choedwigaeth a'u gweithgareddau cysylltiedig achosi dirywiad yn ansawdd dŵr. Mae Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991



*Amddiffynfeydd môr Dinas Dinlle.*

wedi gosod safonau adeiladu o fewn y diwydiant amaethyddol a fydd yn gweithio i sicrhau llai o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol. Mae'r diwydiannau coedwigaeth a dŵr wedi llunio'r

## 5.0 GWEITHREDU

### CYFLWYNIAD

Mae dalgylch y Fenai o ansawdd da ar y cyfan, ond sylwyd ar faterion y mae'n rhaid eu datrys er mwyn ceisio gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y dalgylch.

Y Cynllun Gweithredu yw'r arf a ddefnyddir i droi'r weledigaeth yn raddol yn ffaith. Mae'n ddatganiad clir o fwriad i wneud gwaith gweithredol yn y maes a fydd yn trosi nod ac amcanion yn ganlyniadau pendant. Mae angen gweithredu hyn os am wireddu'r weledigaeth ar gyfer y dalgylch.

Rhaglen 5 mlynedd sydd i hyn ar y dechrau, ac er y bydd llawer o'r gweithredoedd penodedig wedi'u cyflawni erbyn diwedd y cyfnod hwn, fe fydd rhai gweithredoedd ar ôl y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwireddu'r weledigaeth yn llawn. At hynny, natur ddeinamig sydd i Gynlluniau Rheoli Dalgylch ac efallai y nodir mwy o weithredoedd yn y blynyddoedd a ddaw a fydd yn ofynnol er mwyn sicrhau

Canllawiau Coedwigaeth a Dŵr sy'n gosod safonau er mwyn sicrhau llai o broblemau oherwydd gwaith coedwigo.

Bydd unrhyw ddefnydd tir a allai olygu halogi tir neu a allai ysgogi llygrynnau mewn tir sydd eisoes yn halogedig yn destun gofynion Polisi Gwarchod Dŵr Daear yr AAC. Er mai cyfyngedig yw presenoldeb dŵr daear yn y dalgylch, bydd yr AAC serch hynny yn disgwyl i'r awdurdodau cynllunio drin gwarchod dŵr daear fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae rhyngberthynas agos felly rhwng defnydd tir a'r amgylchedd dyfrol, a bydd yr AAC yn mynd ati i hybu ymhlith yr awdurdodau cynllunio lleol yr angen i sicrhau bod gwarchod yr amgylchedd dyfrol yn elfen gwbl glir mewn polisiâu o fewn eu cynlluniau datblygu statudol.

gwarchodaeth ddigonol i'r amgylchedd.

Yn gyntaf oll, serch hynny, mae 11 o faterion i'w datrys, ac fe'u cyflwynir ar ffurf tablau yn yr adran hon.

Mae pob gweithredu a nodir yma wedi'i drafod gyda'r cyrff perthnasol. Dim ond lle y cytunodd y cyrff hynny i weithredu fel hyn, yn ôl yr amserlen a bennwyd ac am y costau a ddyfynnwyd, y cynhwysodd yr AAC yr elfennau hynny yn yr adran hon. Os na chafwyd y cytundebau hyn, neu os na chafwyd digon o wybodaeth, cynhwysir y materion ond heb fanylion cost, amserlen a chyfrifoldeb.

### GWIREDDU'R CYNLLUN GWEITHREDU

'Cyflwr y Dalgylch' a adroddwyd yn y ddogfen ymgynghorol a ddosbarthwyd ym 1993 yw'r llinell waelod y gweithredir y Cynllun Gweithredu ohoni. Rhoddir meini prawf llwyddiant y Gweithredu penodedig yn y tablau 'Gweithredu CRhD Afon Menai - Meini Prawf Llwyddiant' (Adran 6.0).

## 5.0 GWEITHREDU CRHD AFON MENAI

MATER 1 Arllwys Carthion heb eu Trin.									
GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB		COST £	1994	1995	1996	1997	1998	DYFODOL
	PRIF	ARALL							
GTC newydd i Fiwmares a Brynsiencyn. Uwchraddio Gwaith Treborth ar gyfer Triniaeth Eilradd ac ehangu i gymryd llifoedd o Borthaethwy, Llandegfan, y Felinheli a Bangor.	Dŵr Cymru	AAC	22mil						
Canfod ac enwi Arllwysiadau Preifat Arwyddocaol.	AAC		5mil						
Arllwyswyr Preifat i ddarparu triniaeth briodol.	Arllwyswyr Preifat		>200mil						
MATER 2 Gwarchodfa Natur Môr Arfaethedig.									
Penderfyniad yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol	Swyddfa Gymreig	Cyngor Cefn Gwlad	Anhysbys hyd yma						
MATER 3 Gweithgaredd dyn yn aflonyddu ar adar yn Llanddwyn, Bae'r Foryd a Phenmon.									
Bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Warchodfa Natur Môr (Mater 2) yn amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael.	Cyngor Cefn Gwlad	Swyddfa Gymreig	Anhysbys hyd yma						
MATER 4 Cloddio am abwyd yn ddi-reolaeth yn difodi'r glannau ym mae'r Foryd a Thraeth Lafan.									
Bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Warchodfa Natur Môr (Mater 2) yn amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael.	Cyngor Cefn Gwlad	Swyddfa Gymreig	Anhysbys hyd yma						
MATER 5 Blodau algaid (Phaeocystis sp.) yn peri problemau esthetig a thagu pibellau tynnu dŵr									
Proses naturiol. Tynnwyd yn ôl fel Mater									
MATER 6 Ailsefydlu amddiffynfa fôr ddigonol yn Ninas Dinlle.									
Mae'r cynllun hwn wedi'i gwblhau yn sylweddol. Bydd cyfnod gwarant/cynnal yn rhedeg tan fis Mehefin 1995.	AAC	Swyddfa Gymreig CB Arfon CS Gwynedd							



## 5.0 GWEITHREDU CRHD AFON MENAI

<b>MATER 7</b> Ansawdd y dŵr yn methu cydymffurfio â Chyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn y GE mewn perthynas â Chopr.									
GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB		COST £	1994	1995	1996	1997	1998	DYFODOL
	PRIF	ARALL							
Dangosodd rhaglen samplu fwy manwl fod y crynodiad copr wedi cwmpo a'i fod bellach islaw terfyn y Gyfarwyddeb. Tynnwyd yn ôl fel Mater	AAC		2fil						
<b>MATER 8</b> Gall codi Gorchmynion Cau olygu bod y dyfroedd yn methu cydymffurfio o safbwynt bacteriolegol â Chyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn y GE.									
Mae gofynion safonau bacteriolegol Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn 79/923/EEC ar godi Gorchmynion Cau wedi'u disodli gan ofynion Cyfarwyddeb Hylendid Pysgod Cregyn 91/492/EEC. Mae pob gwely pysgod cregyn yn nosbarthiadau B neu C a rhaid puro pysgod cregyn a gynaeafir cyn eu bwyta. Tynnwyd yn ôl fel Mater.									
<b>MATER 9</b> Gwelyau cregyn gleision mewn un ardal yn Nosbarth C o dan Gyfarwyddeb Hylendid Pysgod Cregyn y GE. Dosbarth B yw targed lleiaf y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd(WAPB) yn y Fenai.									
Disgwylir y bydd cyflawni'r Gweithredu a amlinellir ym Mater 1 yn caniatáu gwelliant yn nosbarthiad y gwelyau pysgod cregyn.	Dŵr Cymru Arllwys- wyr Preifat	AAC WAPB	Gweler Mater 1 uchod						
<b>MATER 10</b> Mae cludiant gwaddodion i'r foryd yn cynyddu tyrfedd, a gallai fod yn effeithio ar yr ecoleg e.e. dosbarthiad rhai rhywogaethau gwymon.									
Derbyniwyd fel proses naturiol. Tynnwyd yn ôl fel Mater									

## 5.0 GWEITHREDU CRHD AFON MENAI

MATER 11		Mae dyfroedd ymdrochi mewn rhannau o hanner gorllewinol traeth Penmaenmawr /Dwygyfylchi yn methu cydymffurfio â Chyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi'r GE.							
GWEITHREDU	CYFRIFOLDEB		COST £	1994	1995	1996	1997	1998	DYFODOL
	PRIF	ARALL							
Dynodwyd yn Ddŵr Ymdrochi gan y GE ym 1994. Mae angen sefydlu triniaeth briodol i garthion erbyn y flwyddyn 2000.	AAC/ Dŵr Cymru		Bydd yn dibynnu ar y cynllun						
MATER 12		Cychod yn gollwng dŵr gwastraff a gwastraff toiled i'r Fenai.							
Fel corff y mae'n rhaid ymgynghori ag ef bydd yr AAC yn pwyso am osod cyfleusterau pwmpio- allan mewn marinas a harbwr newydd a rhai a ailddatblygir.	AAC	Awdur- dodau Cynllu- nio	Cost y gosod- iadau os gweith- redir						
MATER 13		Gall treillio hydrologig am gocs niweidio gwerth ecolegol a chadwraethol y Fenai.							
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr GC a GOLI i ymgynghori â'r Cyngor Cefn Gwlad ar bob cais treillio.  Y Cyngor Cefn Gwlad i baratoi polisi ar dreillio hydrologig mewn safleoedd sensitif.	Pwyllgor PM GC a GOLI Cyngor Cefn Gwlad	Cyngor Cefn Gwlad	Dim  Dim						
MATER 14		Llygredd Olew mewn dociau a marinas.							
Sicrhau ufudd-dod i Is-ddeddfau presennol Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon. Cydweithredu agos rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r AAC i lanhau unrhyw ollyngiadau mawr.	Ymddir- iedolaeth yn Harbwr	AAC	Anhysbys hyd yma						
MATER 15		Gwella mynediad ar hyd glannau Môn.							
Hyrwyddo rhwydwaith llwybrau arfordirol fel rhan o Broiect Arfordir Ynys Môn erbyn diwedd 1997.	CB Ynys Môn		3mil y flwyd- dyn						
MATER 16		Lleihau effaith rhwydo tagell yn y Fenai.							
Cyflwyno Is-ddeddfau i wahardd Rhwydo Tagell yn y Fenai rhwng Ebrill a Thachwedd. Gweithredwyd yn ystod 1993	AAC		Dim						

## 6.0 GWEITHREDU CRHD AFON MENAI - MEINI PRAWF LLWYDDIANT

<b>MATER 1</b> Arllwys Carthion heb eu Trin.		
<b>GWEITHREDU</b>	<b>CANLYNIAD LLWYDDIANNUS</b>	<b>SUT Y CAIFF EI FESUR</b>
<p>GTC newydd i Fiwmares a Brynsiencyn. Uwchraddio Gwaith Treborth ar gyfer Triniaeth Eilradd ac ehangu i gymryd llifoedd o Borthaethwy, Llandegfan, y Felinheli a Bangor.</p> <p>Canfod ac enwi Arllwysiadau Preifat Arwyddocaol.</p> <p>Arllwyswyr Preifat i ddarparu triniaeth briodol.</p>	<p>Dim arllwysiadau carthion crai i'r Fenai.</p> <p>Canfod pob prif ffynhonnell llygredd.</p> <p>Dim arllwysiadau carthion annerbyniol i'r Fenai.</p>	<p>Cwblhad y cynlluniau a enwyd, monitro gan staff yr AAC a'r cyhoedd.</p> <p>Monitro gan arbenigwyr Ansawdd Dŵr yr AAC a dim adroddiadau cyhoeddus anffafriol ynghylch ffynonellau newydd na rhai a ganfuwyd eisoes.</p> <p>Dim adroddiadau anffafriol gan y cyhoedd a staff yr AAC.</p>
<b>MATER 2</b> Gwarchodfa Natur Môr Arfaethedig.		
<p>Penderfyniad yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol.</p>	<p>Cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi'r Fenai'n Warchodfa Natur Môr.</p>	<p>Gweithredu'r penderfyniad. Dim methiant i gydymffurfio ag unrhyw is-ddeddfau a ddaw i rym yn sgîl y Dynodiad.</p>
<b>MATER 3</b> Gweithgaredd dyn yn aflonyddu ar adar yn Llanddwyn, Bae'r Foryd a Phenmon.		
<p>Bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Warchodfa Natur Môr (Mater 2) yn amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael.</p>	<p>Dim aflonyddu ar y poblogaethau adar yn Llanddwyn, Bae'r Foryd a Phenmon.</p>	<p>Dim adroddiadau anffafriol am aflonyddwch i adar gan staff yr AAC, y Cyngor Cefn Gwlad na'r cyhoedd.</p>
<b>MATER 4</b> Cloddio am abwyd yn ddi-reolaeth yn difrodi'r glannau ym mae'r Foryd a hraeth Lafan.		
<p>Bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Warchodfa Natur Môr (Mater 2) yn amlinellu'r dewisiadau sydd ar gael.</p>	<p>Dim mwy o ddifrod i'r blaendraeth ym Mae'r Foryd a Thraeth Lafan oherwydd cloddio am abwyd.</p>	<p>Dim adroddiadau am ddifrod gan staff yr AAC, y Cyngor Cefn Gwlad nac aelodau'r cyhoedd.</p>
<b>MATER 5</b> Blodau algaid (Phaeocystis sp.) yn peri problemau esthetig a thagu pibellau tynnu dŵr.		
<p>Proses naturiol.</p> <p>Tynnwyd yn ôl fel Mater</p>		
<b>MATER 6</b> Ailsefydlu amddiffynfa för ddigonol yn Ninas Dinlle.		
<p>Mae'r cynllun hwn wedi'i gwblhau yn sylweddol. Bydd cyfnod gwarant/cynnal yn rhedeg tan fis Mehefin 1995.</p>	<p>Ailsefydlu'r Amddiffynfa För yn Ninas Dinlle.</p>	<p>Arbenigwyr Amddiffyn rhag Llifo-gydd yr AAC i famu a yw'r cynllun yn darparu'r lefel amddiffyniad a gwarchodaeth amgylcheddol a bennwyd yn y cynlluniau gwreiddiol.</p>



**6.0 GWEITHREDU CRŪD AFON MENAI - MEINI PRAWF LLWYDDIANT**

<p><b>MATER 7</b>      Ansawdd y dŵr yn methu cydymffurfio â Chyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn y GE mewn perthynas â Chopr.</p>		
GWEITHREDU	CANLYNIAD LLWYDDIANNUS	SUT Y CAIFF EI FESUR
Dangosodd rhaglen samplu fwy manwl fod y crynodiad copr wedi cwmpo a'i fod bellach islaw terfyn y Gyfarwyddeb. Tynnwyd yn ôl fel Mater		
<p><b>MATER 8</b>      Gall codi Gorchmynion Cau olygu bod y dyfroedd yn methu cydymffurfio o safbwynt bacteriolegol â Chyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn y GE.</p>		
Codwyd y Gorchmynion Cau pan gyflwynwyd Cyfarwyddeb Hylendid Pysgod Cregyn 91/492 /EEC ac mae pob gwely pysgod cregyn wedi'u dosbarthu'n B neu C. Felly rhaid puro pysgod cregyn a gynaeafir cyn eu bwyta ac nid yw safonau bacteriolegol Cyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn 79/923/EEC yn berthnasol. Tynnwyd yn ôl fel Mater.		
<p><b>MATER 9</b>      Gwelyau cregyn gleision mewn un ardal yn Nosbarth C o dan Gyfarwyddeb Hylendid Pysgod Cregyn y GE. Dosbarth B yw targed lleiaf y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd(WAPB) yn y Fenai.</p>		
Disgwylir y bydd cyflawni'r Gweithredu a amlinellir ym Mater 1 yn caniatau gwelliant yn nosbarthiad y gwelyau pysgod cregyn.	Llwyddo i gael dosbarthiad Dosbarth B i'r holl welyau cregyn gleision yn y Fenai.	WAPB i farnu a gydymffurfir â'r safonau bacteriolegol yng Nghyfarwyddeb Hylendid y GE sy'n perthyn i ddsbarthiad Dosbarth B.
<p><b>MATER 10</b>      Mae cludiant gwaddodion i'r foryd yn cynyddu tyrfedd, a gallai fod yn effeithio ar yr ecoleg e.e. dosbarthiad rhai rhywogaethau gwymon.</p>		
Derbyniwyd fel proses naturiol. Tynnwyd yn ôl fel Mater		
<p><b>MATER 11</b>      Mae dŵr ymdrochi mewn rhannau o hanner gorllewinol traeth Penmaenmawr/ Dwygyfylchi yn methu cydymffurfio â Chyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi'r GE.</p>		
Dynodwyd yn Dd r Ymdrochi gan y GE ym 1994. Mae angen sefydlu triniaeth briodol i garthion erbyn y flwyddyn 2000.	Y cynllun a ddewisir yn sicrhau bod y d r ymdrochi'n cydymffurfio â safonau bacteriolegol gorfodol Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi'r GE.	Cwblhad y cynllun a ddewisir. Monitro gan staff yr AAC, ac AyrA i asesu cydymffurfiad.

## 6.0 GWEITHREDU CRŪD AFON MENAI - MEINI PRAWF LLWYDDIANT

<b>MATER 12</b> Cychod yn gollwng dŵr gwastraff a gwastraff toiled i'r Fenai.		
<b>GWEITHREDU</b>	<b>CANLYNIAD LLWYDDIANNUS</b>	<b>SUT Y CAIFF EI FESUR</b>
Fel corff y mae'n rhaid ymgynghori ag ef bydd yr AAC yn pwysu am osod cyfleusterau pwmpio-allan mewn marinas a harbwr newydd a rhai a ailddatblygir.	Gosod cyfleusterau pwmpio- allan ym mhob marina a harbwr newydd ac ailddatblygedig o fewn y dalgylch.	Monitro gan staff yr AAC.
<b>MATER 13</b> Gall treillio hydrologig am gocos niweidio gwerth ecolegol a chadwraethol y Fenai.		
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr GC a GOL i ymgynghori a'r Cyngor Cefn Gwlad ar bob cais treillio. Y Cyngor Cefn Gwlad i baratoi polisi ar dreillio hydrologig mewn safleoedd sensitif.	Cytundeb rhwng y cyrff cyfranogol ar arferion sy'n gwarchod yr amgylchedd a'r modd y'u gweithredu yn y maes.	Monitro effaith treillio hydrologig. (Ni phennwyd yr awdurdod cyfrifol eto).
<b>MATER 14</b> Llygredd Olew mewn dociau a marinas.		
Sicrhau ufudd-dod i Is-ddeddfau presennol Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon. Cydweithredu agos rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r AAC i lanhau unrhyw ollyngiadau mawr.	Ufudd-dod i'r is-ddeddfau heb ddim olew'n weladwy ar wyneb y dŵr. Unrhyw ollyngiad mawr yn cael ei reoli a'i lanhau'n effeithiol.	Dim adroddiadau gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr na staff yr AAC na'r cyhoedd am neb yn torri'r is-ddeddfau. Dim adroddiadau am lygredd olew cronig gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr na'r cyhoedd. Dim adroddiadau anffafriol ar effeithiolrwydd gweithgareddau glanhau.
<b>MATER 15</b> Gwella mynediad ar hyd glannau Môn.		
Hyrwyddo rhwydwaith llwybrau arfordirol fel rhan o Broiect Arfordir Ynys Môn erbyn diwedd 1997.	Sefydlu rhwydwaith llwybrau arfordirol ar hyd glannau Môn.	Mwy o fynediad i'r cyhoedd at y glannau i gael ei gadarnhau gan G.B. Ynys Môn.
<b>MATER 16</b> Lleihau effaith rhwydo tagell yn y Fenai.		
Cyflwyno Is-ddeddfau i wahardd Rhwydo Tagell yn y Fenai rhwng Ebrill a Thachwedd. Gweithredwyd yn ystod 1993	Ufudd-dod i'r is-ddeddfau.	Dim gweithredu gorfodol gan feiliaid yr AAC nac adroddiadau gan y cyhoedd i gadarnhau bod hyn yn mynd ymlaen.

## 7.0 ADOLYGU A MONITRO YN Y DYFODOL

Bydd yr AAC yn gyd-gyfrifol, gyda chyrrff ac unigolion eraill penodedig, am weithredu'r Cynllun Gweithredu hwn. Caiff y gwaith ei fonitro ac fel arfer cyflwynir adroddiad blynyddol. Bydd yr adolygiadau'n edrych ar yr angen i ddiweddarau'r CRhD yng ngoleuni newidiadau yn y dalgylch. Fel rheol bydd cyfnod o bum mlynedd rhwng pob adolygiad mawr.

Bydd yr adolygiad blynyddol ar ffurf adroddiad gwaith cryno, yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd o gymharu â'r hyn a gynlluniwyd, ac yn tanlinellu unrhyw newidiadau i'r Cynllun.

Anfonir yr adolygiad blynyddol at bawb sydd â rhan yn y gweithredu a bennwyd ar gyfer y dalgylch, a bydd ar gael i unrhyw un.

## CYSYLLTU Â'R AAC

Mae prif swyddfa genedlaethol (Brydeinig) yr AAC ym Mryste.

**Ffôn: 01454 - 624400**

Mae prif swyddfa Rhanbarth Cymru yng Nghaerdydd.

**Ffôn: 01222 - 770088**

Dyma'r Rheolwr Ardal dros Ardal y Gogledd yn Rhanbarth Cymru:


**Roger Thomas,  
Bryn Menai,  
Ffordd Caergybi,  
Bangor,  
Gwynedd.  
LL57 2EF**

Dylid cyfeirio ymholiadau am Gynllun Rheoli Dalgylch Conwy at:

**Dr Ken Jones,  
Cydgysylltydd Cynllunio a  
Gwasanaethau Ategol yr Ardal,  
Highfield,  
Lôn Priestly,  
Caernarfon,  
Gwynedd,  
LL55 1HR**







## 7.0 FUTURE REVIEW AND MONITORING

The NRA will be jointly responsible, with other identified organisations and individuals, for implementing this Action Plan. Progress will be monitored and normally reported annually. The reviews will examine the need to update the CMP in the light of changes in the catchment. The period between major revisions will normally be five years.

The annual review will take the form of a short progress report, to include work achieved compared with that planned, and to highlight any changes to the Plan.

The annual review will be sent to all those involved in the actions identified for the catchment and will be made widely available.

## CONTACTING THE NRA

The national head office of the NRA is in Bristol  
Tel: 01454 - 624400

The Welsh Region head office is in Cardiff  
Tel: 01222 - 770088

The Area Manager for the Northern Area of the Welsh Region is

**Roger Thomas,  
Bryn Menai,  
Holyhead Road,  
Bangor,  
Gwynedd.  
LL57 2EF**

Enquiries about the Menai Strait Catchment Management Plan should be directed to:

**Dr Ken Jones,  
Area Planning and Support Services  
Coordinator,  
Highfield,  
Priestley Road,  
Caernarfon,  
Gwynedd.  
LL55 1HR**



## 6.0 MENAI STRAIT ACTIONS - SUCCESS CRITERIA

ISSUE 12 Discharges from boats of bilges and toilet waste within the Strait.		
ACTIONS	SUCCESSFUL OUTCOME	HOW WILL IT BE MEASURED
As a statutory consultee the NRA will press for the installation of pump out facilities at new and redeveloped marinas and harbours.	Installation of pump out facilities at all new and redeveloped marinas and harbours within the catchment.	Monitoring by NRA staff.
